Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Y Gyfres Cynllunio
## 17 – Y drefn gydsynio ar gyfer seilwaith ynni

Hydref 2024



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Y Gyfres Cynllunio
## 17 – Y drefn gydsynio ar gyfer seilwaith ynni

Hydref 2024

**Awduron:**
Francesca Howorth a Jake Lloyd Newman

# Cynnwys

**Trosolwg ........ 3**

**Beth yw'r prosesau cydsynio presennol ar gyfer seilwaith ynni?3**

Ar y tir ........ 3

Ar y môr ........ 4

**Beth yw'r polisïau cynllunio perthnasol? ........ 5**

Llywodraeth Cymru ........ 5

Llywodraeth y DU ........ 6

Awdurdodau Cynllunio Lleol ........ 7

**Pa newidiadau sydd ar y gorwel yng Nghymru? ........ 7**

**Ffynonellau allweddol ........ 9**

Llywodraeth Cymru ........ 9

Comisiwn Dylunio Cymru (Saesneg yn unig) ........ 9

Llywodraeth y DU ........ 9

Ymchwil y Senedd ........ 9

Senedd Cymru ........ 10

Cymorth Cynllunio Cymru ........ 10

**Atodiad A – map yn dangos rhanbarth glannau Cymru a rhanbarth môr mawr Cymru. ........ 11**

## Cynhyrchu ynni gwynt



| | Ar y tir | | Ar y môr | |
|---|---|---|---|---|
| | **Hyd at 10 MW** | **Dros 10 MW** | **Rhanbarth glannau Cymru** (hyd at 12 MF) **1-350 MW**<br>**Rhanbarth môr mawr Cymru** (hyd at 200 MF) **50-350 MW** | **Dros 350 MW** |
| **Awdurdod penderfynu** | Awdurdodau cynllunio lleol | Llywodraeth Cymru | Llywodraeth Cymru | Llywodraeth y DU |
| **Y gyfundrefn sy'n cydsynio** | Cynllunio gwlad a thref | Cynllunio gwlad a thref: Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol | Adran 36, Deddf Trydan 1989 | Deddf Cynllunio 2008: Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol |

## Cynhyrchu ynni (ac eithrio gwynt a'r rhan fwyaf o ddulliau storio ynni)

| | Ar y tir | | | Ar y môr | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Hyd at 10 MW** | **10-350 MW** | **Dros 350 MW** | **Rhanbarth glannau Cymru** (hyd at 12 MF)<br>**1-350 MW** (adnewyddadwy)<br>**50-350 MW** (anadnewyddadwy)<br>**Rhanbarth môr mawr Cymru** (hyd at 200 MF)<br>**50-350 MW** (unrhyw fath o ynni a gynhyrchir) | **Dros 350 MW** |
| **Awdurdod penderfynu** | Awdurdodau cynllunio lleol | Llywodraeth Cymru | Llywodraeth y DU | Llywodraeth Cymru | Llywodraeth y DU |
| **Y gyfundrefn sy'n cydsynio** | Cynllunio gwlad a thref | Cynllunio gwlad a thref: Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol | Deddf Cynllunio 2008: Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol | Adran 36, Deddf Trydan 1989 | Deddf Cynllunio 2008: Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol |

[Nodiadau: MF = milltir forol MW = Megawat

Mae angen trwydded forol gan sefydliad Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer sicrhau cydsyniad parthed yr holl ynni a gynhyrchir yn y môr ('dyfroedd Cymru'), ni waeth a oes angen cydsyniad gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol.

Mae dyfroedd Cymru yn cynnwys rhanbarth glannau Cymru (o gymedr penllanw'r gorllanw hyd at 12 milltir forol o'r lan) a rhanbarth môr mawr Cymru (y tu hwnt i 12 milltir forol, gan ymestyn hyd at 200 milltir forol), neu bellter cyfartal rhwng arfordir Cymru ac arfordir tiriogaeth gyfagos, pa un bynnag sydd agosaf at arfordir Cymru. Gweler y map yn Atodiad A]

# Trosolwg

Dyma ganllaw cyflym i'r drefn gydsynio ar gyfer ynni yng Nghymru. Mae'n cynnwys gwybodaeth ynghylch y prosesau cydsynio a'r polisïau cynllunio sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae hefyd yn disgrifio'r newidiadau deddfwriaethol a ddaeth i rym drwy **Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024.**

# Beth yw'r prosesau cydsynio presennol ar gyfer seilwaith ynni?

Mae'r drefn gydsynio a'r awdurdod penderfynu ar gyfer prosiectau seilwaith sy'n cynhyrchu ynni yn cael eu pennu yn ôl capasiti cynhyrchu gosodedig y prosiect ac yn ôl a yw'r prosiect ar y tir neu ar y môr. Yn ei dro, mae hyn yn pennu pa bolisïau cynllunio sy'n berthnasol i'r broses benderfynu (gweler adran 3 o'r canllaw cyflym hwn).

## Ar y tir

### Gwynt

Mae ceisiadau cynllunio ar gyfer prosiectau cynhyrchu ynni gwynt ar y tir yng Nghymru sydd â chapasiti cynhyrchu gosodedig o **10MW neu fwy** (nid oes terfyn uchaf) yn cael eu cyflwyno yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru o dan y broses ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Fe'u pennir yn unol â'r polisïau a nodir yn y 'cynllun datblygu', sydd ar hyn o bryd yn cynnwys **Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040** a'r cynllun datblygu lleol ar gyfer yr ardal, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.

Mae'r cynllun datblygu hefyd yn cynnwys unrhyw gynllun datblygu strategol ar gyfer y rhanbarth, ond hyd yn hyn, nid oes unrhyw gynllun o'r fath wedi'i gynhyrchu yng Nghymru.

Rhaid i ystyriaethau perthnasol fod yn faterion cynllunio gwirioneddol. Y llysoedd sydd â'r gair olaf ar yr hyn y gellir ei ystyried yn ystyriaethau perthnasol mewn perthynas ag unrhyw gais penodol.

Gallwch ddarllen mwy am y broses ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn ein **canllaw cyflym perthnasol**.

Mae ceisiadau ar gyfer prosiectau y mae eu capasiti cynhyrchu o **dan 10MW** yn cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol, a gwneir penderfyniadau yn eu cylch yn unol â'r cynllun datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.

### Prosiectau nad ydynt yn brosiectau gwynt

Mae ceisiadau cynllunio ar gyfer prosiectau cynhyrchu ynni ar y tir y mae eu capasiti cynhyrchu gosodedig **rhwng 10MW a 350MW**, ac eithrio prosiectau gwynt, yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru o dan y drefn ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae penderfyniadau yn eu cylch yn cael eu gwneud yn unol â'r cynllun datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.

Mae prosiectau cynhyrchu ynni ar y tir y mae eu capasiti cynhyrchu **dros 350MW**, ac eithrio prosiectau gwynt, yn destun penderfyniadau cydsynio gan Ysgrifennydd Gwladol y DU, a hynny o dan y **broses ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol.**. Gwneir penderfyniadau yn eu cylch yn unol â'r polisïau a nodir yn **Natganiadau Polisi Cenedlaethol y DU.**

Fel y nodir uchod, mae penderfyniadau ynghylch ceisiadau ar gyfer **prosiectau y mae eu capasiti cynhyrchu o dan 10MW** yn cael eu gwneud gan yr awdurdod cynllunio lleol, a hynny'n unol â'r cynllun datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.

## Ar y môr

Yn **rhanbarth glannau** Cymru (hyd at 12 milltir forol o'r lan), mae prosiectau ar gyfer cynhyrchu ynni **adnewyddadwy** y mae eu capasiti cynhyrchu **rhwng 1MW a 350MW**, a phrosiectau ar gyfer cynhyrchu ynni **anadnewyddadwy** y mae eu capasiti cynhyrchu **rhwng 50MW a 350MW**, yn destun penderfyniadau cydsynio gan Weinidogion Cymru, a hynny o dan **adran 36 o Ddeddf Trydan 1989**.

Yn **rhanbarth môr mawr Cymru** (y tu hwnt i 12 milltir forol, gan ymestyn hyd at 200 milltir forol), mae pob math o brosiectau cynhyrchu ynni y mae eu capasiti cynhyrchu **rhwng 50MW a 350MW** yn destun penderfyniadau cydsynio gan Weinidogion Cymru, a hynny o dan adran 36 o *Ddeddf Trydan 1989.*

Mae prosiectau y mae eu capasiti cynhyrchu **dros 350MW** yn destun penderfyniadau cydsynio gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a hynny o dan y broses ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Mae angen trwydded forol gan sefydliad Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer sicrhau cydsyniad parthed yr holl ynni morol a gynhyrchir, ni waeth a oes angen cydsyniad gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol.

Mae'r map yn Atodiad A yn dangos rhanbarth glannau Cymru a rhanbarth môr mawr Cymru.

Mae **fersiwn flaenorol o'r canllaw cyflym hwn** yn nodi rhai o'r newidiadau deddfwriaethol a arweiniodd at sefydlu'r prosesau cydsynio presennol.

# Beth yw'r polisïau cynllunio perthnasol?

## Llywodraeth Cymru

Dylid gwneud penderfyniadau cynllunio gwlad a thref yng Nghymru yn unol â'r polisïau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun datblygu ar gyfer yr ardal dan sylw. Fel y nodir uchod, mae'r cynllun datblygu yn cynnwys **Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040,** unrhyw gynllun datblygu strategol sydd ar waith, a'r cynllun datblygu lleol (hynny yw, y cynlluniau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol), oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.

Mae polisi cynllunio cenedlaethol Cymru wedi'i nodi yn y ddogfen **'Polisi Cynllunio Cymru',** sy'n ystyriaeth berthnasol bwysig wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau.

Yn ôl Polisi Cynllunio Cymru, mae gan y system gynllunio rôl weithredol i'w chwarae wrth gyflawni **targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy**, sef:

- sicrhau bod Cymru yn cynhyrchu 70 y cant o'r trydan y mae'n ei ddefnyddio o ynni adnewyddadwy erbyn 2030;
- sicrhau bod un Gigawat o'r capasiti trydan adnewyddadwy yng Nghymru o dan berchnogaeth leol erbyn 2030; a
- sicrhau bod prosiectau ynni adnewyddadwy newydd ag elfen o berchnogaeth leol o leiaf erbyn 2020.

Mae polisïau 17 a 18 yng nghynllun Cymru'r Dyfodol yn canolbwyntio ar ddatblygu ynni adnewyddadwy ac yn cynnwys polisïau gofodol strategol a manwl sy'n seiliedig ar feini prawf. Dylid eu hystyried gyda'i gilydd wrth wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol, a hynny ochr yn ochr â'r polisïau perthnasol yn nogfen Polisi Cynllunio Cymru.

Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi nifer o 'Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw ar gyfer Ynni Gwynt' (sydd i'w gweld ar y map ar **dudalen 94**). Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi modelu'r effaith debygol ar y dirwedd yn yr ardaloedd hyn, ac wedi canfod y byddai'r ardaloedd dan sylw yn gallu cynnal datblygiadau mewn modd derbyniol. Mae rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni gwynt mawr (gan gynnwys adbweru) yn yr ardaloedd hyn. Mae hyn wedi ei nodi ym **mholisi 17**. Fodd bynnag, byddai unrhyw ddatblygiad posibl yn amodol ar nifer o feini prawf, sydd wedi'u nodi ym **mholisi 18**.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r **asesiad a ddefnyddiwyd i nodi'r meysydd a aseswyd ymlaen llaw.**

Mae **Comisiwn Dylunio Cymru** wedi llunio canllawiau ar gyfer datblygu ffermydd gwynt a solar mawr ar y tir yn nogfen **Dylunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru**. Mae'r canllawiau hyn yn diweddaru ac yn ehangu'r canllawiau arfer da ar **ddylunio ffermydd gwynt yng Nghymru**, a gyhoeddwyd yn 2014. Fodd bynnag, dim ond i'r tir y mae'r system cynllunio gwlad a thref yn berthnasol. Dylai prosiectau ynni yn nyfroedd Cymru (sef rhanbarth y glannau a rhanbarth y môr mawr), mewn achosion lle mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod sy'n penderfynu, fod yn destun penderfyniadau a wneir yn unol â'r polisïau a nodir yng **Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru**. Mae'r cynllun morol yn cynnwys nifer o bolisïau cyffredinol, gan gynnwys dau bolisi penodol ar gynhyrchu ynni: **Carbon Isel**; ac **Olew a Nwy**.

## Llywodraeth y DU

Mae **datganiadau polisi cenedlaethol (NPS)** yn cael eu cynhyrchu gan Lywodraeth y DU. Maent yn nodi ei hamcanion ar gyfer datblygu seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol ac yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer y penderfyniadau cynllunio y mae'n eu gwneud mewn perthynas â'r datblygiadau hyn.

Mae chwe NPS ym maes ynni, a gellir eu gweld ar **wefan Llywodraeth y DU**. Dyma'r chwe NPS ym maes ynni:

- NPS ar gyfer Ynni Cyffredinol (EN-1);
- NPS ar gyfer Ynni Nwy Naturiol (EN-1);
- NPS ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (EN-3);
- NPS ar gyfer Cyflenwi a Storio Olew a Nwy (EN-4);
- NPS ar gyfer Rhwydweithiau Trydan (EN-5);
- NPS ar gyfer Ynni Niwclear (EN-6).

Cyhoeddwyd yr NPS Ynni yn wreiddiol yn 2011. Diwygiwyd NPSs EN-1 i EN-5 yn 2023 a daethant i rym ar 17 Ionawr 2024.

Dynodwyd NPS EN-6 ar 19 Gorffennaf 2011 a daeth i rym ar gyfer prosiectau niwclear rhestredig y gellid eu gweithredu erbyn diwedd 2025. Cynhyrchwyd hwn gan y cyn Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC), neu'r **Adran Diogeledd Ynni a Sero Net** erbyn hyn. Mae NPS EN-6 newydd yn cael ei baratoi gan yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net.

### Awdurdodau Cynllunio Lleol

Ar gyfer prosiectau lle mae'r capasiti cynhyrchu yn golygu bod penderfyniadau yn eu cylch yn cael eu gwneud gan yr awdurdod cynllunio lleol, gwneir y penderfyniadau hynny yn unol â'r cynllun datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.

## Pa newidiadau sydd ar y gorwel yng Nghymru?

Ym mis Gorffennaf 2022, **cyhoeddodd y Prif Weinidog ar y pryd, Mark Drakeford AS, y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil cydsynio seilwaith** er mwyn symleiddio'r broses ar gyfer cytuno ar brosiectau seilwaith mawr a chyflwyno un gofyniad cydsynio unigol mewn perthynas ag adeiladu a gweithredu prosiect. Dim ond i brosiectau y mae'r pwerau cydsynio yn eu cylch wedi'u datganoli i Gymru y byddai'r Bil hwn yn berthnasol.

Dywedodd y Prif Weinidog ar y pryd:

> Fe fydd y Bil cydsynio yn caniatáu i ni ddatblygu cyfundrefn gydsynio yng Nghymru sy'n gyflymach ac yn fwy ystwyth na'r un bresennol, a fydd yn caniatáu i brosiectau ynni adnewyddadwy symud ymlaen er mwyn ein helpu ni gyda'r argyfwng hinsawdd, ond a fydd, ar yr un pryd, yn cydnabod ein rhwymedigaethau ni i beidio â gwneud pethau a allai beryglu'r amgylchedd bregus iawn hwnnw. A honno fydd y ddadl, y cydbwysedd rhwng y ddwy agwedd hynny, nad oes amheuaeth gennyf i y byddwn ni'n ei chael wrth i'r Bil fynd drwy'r Senedd.

Cynhaliodd **Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y cynigion cychwynnol yn 2018,** gan gyhoeddi **crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad** yn dilyn hynny. Gallwch ddarllen mwy am y cynigion bryd hynny yn ein **herthygl o fis Mehefin 2018.**

Bu Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd yn edrych ar faterion cydsynio fel rhan o'i **ymchwiliad i ynni adnewyddadwy** yn nhymor

y gwanwyn 2022. Gwnaeth y **Pwyllgor argymell** sicrhau mwy o adnoddau i awdurdodau cynllunio lleol, mwy o eglurder ynghylch yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r Bil cydsynio seilwaith, a mwy o eglurder ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn symleiddio'r broses ar gyfer datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy yn y Môr Celtaidd. Mae **ymateb Llywodraeth Cymru wedi'i nodi yn y ddogfen hon**. **Derbyniodd** Llywodraeth Cymru holl argymhellion y Pwyllgor yn ei hymateb.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru **Fil Seilwaith (Cymru)** gerbron y Senedd ar 12 Mehefin 2023. Roedd y Bil yn cynnwys y fframwaith ar gyfer y broses newydd, gyda'r manylion wedi'u nodi mewn rheoliadau. Roedd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd yn **feirniadol o hyn yn ystod gwaith craffu**. Roedd y Pwyllgor yn teimlo bod y Bil yn or-ddibynnol ar is-ddeddfwriaeth. Mae rhagor o wybodaeth am waith craffu'r Pwyllgor i'w gweld yn ei **Adroddiad Cyfnod 1** ar y Bil.

Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i **Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024** (y Ddeddf) ar 3 Mehefin 2024. Mae'r Ddeddf yn symleiddio'r broses ar gyfer datblygu prosiectau seilwaith sylweddol drwy sefydlu un broses gydsynio seilwaith ar gyfer mathau penodol o brosiectau seilwaith mawr.

Bydd y math newydd o gydsyniad yn cael ei alw yn 'Gydsyniad Seilwaith' (CS) a bydd yn cael ei roi ar gyfer prosiectau a ragnodir fel 'Prosiect Seilwaith Arwyddocaol' (PSA). Mae PSA yn cynnwys prosiectau ynni, trafnidiaeth, gwastraff, dŵr, a nwy ar dir ac yn nyfroedd Cymru. Mae CS yn cynnwys yr ystod lawn o awdurdodiadau sydd eu hangen i alluogi datblygiad. Bydd hyn yn golygu na fydd yn rhaid i ddatblygwyr wneud cais am gydsyniadau eilaidd ar wahân. Rhaid i ddatblygwyr gael CS ar gyfer PSA.

Mae Llywodraeth Cymru yn **ymgynghori ar weithredu'r Ddeddf (**19 Medi i 13 Rhagfyr 2024) a disgwylir i'r drefn CS newydd ddechrau ganol 2025.

**Cynhyrchodd Ymchwil y Senedd nifer o gyhoeddiadau** yn ystod taith y Bil drwy'r Senedd.

# Ffynonellau allweddol

## Llywodraeth Cymru

Mae polisi cynllunio cenedlaethol Cymru wedi'i nodi yn nogfen **Polisi Cynllunio Cymru** ac yng nghynllun **Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r gwaith ymchwil a lywiodd y gwaith o nodi'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer ynni solar a gwynt yng nghynllun **Cymru'r Dyfodol: Asesiad o botensial ynni solar a gwynt ar y tir yng Nghymru**.

Mae **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru** yn nodi'r polisïau sy'n berthnasol i'r broses o wneud penderfyniadau ar brosiectau cynhyrchu ynni yn nyfroedd Cymru, mewn achosion lle mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod penderfynu.

Mae gan wefan Cyfraith Cymru wybodaeth am ***Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024***. Mae Llywodraeth Cymru yn **ymgynghori ar y broses o'i gweithredu** (19 Medi – 13 Rhagfyr 2024).

## Comisiwn Dylunio Cymru (Saesneg yn unig)

Mae Comisiwn Dylunio Cymru wedi llunio canllawiau ar gyfer datblygu ffermydd gwynt a solar mawr ar y tir yn nogfen **Dylunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru**. Mae'r canllawiau hyn yn diweddaru ac yn ehangu'r canllawiau arfer da ar **ddylunio ffermydd gwynt yng Nghymru**, a gyhoeddwyd yn 2014

## Llywodraeth y DU

Mae **Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS)** Llywodraeth y DU yn darparu'r fframwaith ar gyfer ei phenderfyniadau ar brosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol y cafwyd cydsyniad yn eu cylch o dan ***Ddeddf Cynllunio 2008.*** Mae **chwe NPS wedi'u cyhoeddi ar gyfer seilwaith ynni**. Diwygiwyd NPSs EN-1 i EN-5 yn 2023 a daethant i rym ar 17 Ionawr 2024. Mae NPS EN-6 newydd yn cael ei baratoi gan yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net.

## Ymchwil y Senedd

Mae canllawiau cyflym eraill ar y gyfundrefn gynllunio a gyhoeddwyd gan Ymchwil y Senedd ar gael ar ein **tudalen we ar gyfer canllawiau cyflym**, gan gynnwys **canllaw cyflym** ar ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol.

Mae **tudalen adnoddau Ymchwil y Senedd ar gyfer y Bil Seilwaith (Cymru)** yn cynnwys cyhoeddiadau sy'n ymwneud â hynt y Bil drwy'r Senedd.

## Senedd Cymru

Dyma lincs i **ymchwiliad** y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith i ynni adnewyddadwy yn 2022, ei **adroddiad ar y pwnc**, ac **ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad**.

## Cymorth Cynllunio Cymru

Elusen yw **Cymorth Cynllunio Cymru,** sy'n helpu unigolion a chymunedau cymwys i gymryd rhan yn fwy effeithiol yn y system gynllunio. Mae'n darparu gwasanaethau cynghori, gan gynnwys llinell gymorth a **chanllawiau**.

# Atodiad A – map yn dangos rhanbarth glannau Cymru a rhanbarth môr mawr Cymru.

